Gorffennaf 2022

# Dogfen penderfyniad – Canllawiau Cymhwystra ynglŷn ag a yw cwsmeriaid busnes yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i newid eu manwerthwr

Ofwat

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'n i'n hymgynghoriad statudol ar ein Canllawiau Cymhwystra ynglŷn ag yw cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i newid eu manwerthwr. Cyhoeddwyd ein hymgynghoriad ar 7 Chwefror 2022, a daeth i ben ar 28 Chwefror 2022. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi ein hystyriaeth o'r ymatebion hynny a'n penderfyniad terfynol ar ddiweddaru ein canllawiau cymhwystra. Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'n canllawiau cymhwystra diwygiedig terfynol.

Mae adran 1 yn rhoi rhywfaint o gefndir ein canllawiau cymhwystra.

Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a gawsom i'n hymgynghoriad a'n hymateb i'r sylwadau hynny.

Mae Adran 3 yn nodi ein penderfyniad ar ddiweddaru ein canllawiau cymhwystra.

# Cynnwys

1. Cefndir 3

2. Ymatebion i'r ymgynghoriad 5

3. Casgliad 17

# 1. Cefndir

Ers mis Ebrill 2017 mae tua 1.2 miliwn o fusnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus (**cwsmeriaid busnes**) yn Lloegr wedi gallu dewis pwy sy'n darparu eu gwasanaethau manwerthu dŵr a charthffosiaeth[1]. Gallant edrych ar y dewisiadau, negodi a dod o hyd i'r fargen iawn iddyn nhw. Os nad yw cwsmeriaid yn hoffi'r gwasanaeth a gânt, gallant fynd â'u busnes i rywle arall. Gall y farchnad hon helpu i sicrhau biliau is; helpu pobl i ddefnyddio llai o ddŵr; arwain at wasanaethau gwell; a gweld cynigion a bwndeli newydd yn dod i'r amlwg.

Yng Nghymru ar hyn o bryd dim ond cwsmeriaid busnes sy'n defnyddio mwy na 50 megalitr (**ML**) o ddŵr y flwyddyn all newid eu cyflenwr dŵr[2]. Nid yw holl gwsmeriaid busnes eraill Cymru yn gallu dewis eu manwerthwr ac maent yn parhau i dderbyn eu gwasanaethau manwerthu gan eu cyflenwr dŵr rhanbarthol presennol.

Mae'r farchnad yn gweithio drwy fod cyflenwyr manwerthu (**manwerthwyr**) yn prynu gwasanaethau cyfanwerthu (cyflenwad ffisegol dŵr a/neu gael gwared ar ddŵr gwastraff) gan y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth monopoli rhanbarthol (**cyfanwerthwyr**) a chynnig pecyn i werthu'r gwasanaethau hyn i gwsmeriaid cymwys. Mae gan y manwerthwyr hyn drwydded cyflenwi dŵr a charthffosiaeth (**WSSL**) a roddwyd gan Ofwat. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall cwsmeriaid busnes cymwys ddewis eu manwerthwr dŵr a charthffosiaeth. Mae cwmnïau dŵr rhanbarthol yn parhau i wasanaethu cwsmeriaid anghymwys a chwsmeriaid preswyl.

O ran pwy sy'n gymwys ar gyfer y farchnad hon, rydym yn cyfeirio at gwsmeriaid cymwys. Ond, o ganlyniad i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y farchnad, mewn gwirionedd eiddo unigol sy'n gymwys. Yn gyffredinol, mae eiddo yn gymwys ar gyfer y farchnad pan mai at ddibenion annomestig y mae'r prif ddefnydd.

Mae ein canllawiau cymhwystra yn nodi sut i benderfynu a yw cwsmeriaid busnes yn gymwys i newid eu manwerthwr. Eu prif ddiben yw cynorthwyo rhanddeiliaid i benderfynu a yw eiddo penodol yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Wrth wneud hynny, mae'n cynnwys canllawiau statudol ar y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar hyd a lled unrhyw eiddo sy'n gymwys i gael ei gyflenwi gan fanwerthwr ac ar sut mae'r gofyniad trothwy o 50ML o ddŵr y flwyddyn yn berthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y nodir yn y canllawiau, cyfrifoldeb pob manwerthwr yw asesu cymhwystra yr eiddo y mae'n ei gyflenwi a sicrhau bod eiddo cwsmer busnes posibl yn gymwys.

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi [canllawiau] ar gymhwystra ochr yn ochr â [chanllawiau atodol] yn dilyn ceisiadau gan randdeiliaid am ragor o eglurder ac enghreifftiau

[1] Nid yw hyn yn cynnwys cyflenwad ffisegol dŵr a/neu symud dŵr gwastraff. Mae'n cyfeirio at wasanaethau manwerthu sy'n wynebu cwsmeriaid yn unig, megis bilio.
[2] Ni all cwsmeriaid busnes yng Nghymru newid eu cyflenwr carthffosiaeth ar hyn o bryd.

ymarferol o sut i benderfynu a oedd eiddo yn gymwys. Ym mis Mawrth 2020 gwnaethom ailgyhoeddi ein dogfennau canllaw i gadarnhau, o 1 Ebrill 2020, y byddai ein canllawiau hefyd yn berthnasol i eiddo ar Ynysoedd Sili.

Pan fydd anghydfodau ynglŷn â chymhwystra eiddo, gellir cyfeirio materion penodol atom i benderfynu arnynt. Ers i'r farchnad agor, rydym wedi cyhoeddi pedwar penderfyniad cymhwystra. Yn ogystal, rydym wedi derbyn, ac wedi ymateb i amrywiol gwynion ac anghydfodau gan gwsmeriaid ynglŷn â chymhwystra eiddo penodol, sydd wedi'u datrys wedyn rhwng y partïon perthnasol, yn aml yng ngoleuni ein dogfennau canllaw. Mae'r mathau o bryderon a welwn fel arfer yn canolbwyntio ar a yw eiddo cwsmer penodol yn gymwys ar gyfer y farchnad, a bydd hyn yn aml yn cael ei benderfynu drwy benderfynu ar brif ddefnydd yr eiddo hwnnw. Mae enghreifftiau o anghydfodau o'r fath yr ydym wedi ymdrin â nhw ers agor y farchnad yn cynnwys, ymhlith eraill, gymhwystra llety gwyliau, llety myfyrwyr ac eiddo â chyflenwadau dŵr a rennir.

# 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Nid ydym wedi diweddaru ein canllawiau yn sylweddol ers iddynt gael eu cyhoeddi yn 2016. Mae hyn yn golygu bod gennym bellach dros bum mlynedd o wybodaeth am sut mae'r farchnad manwerthu busnes wedi gweithio'n ymarferol a lle mae pryderon cyffredin wedi codi mewn perthynas â chymhwystra eiddo. Wrth ddiweddaru'r canllawiau, rydym wedi ceisio adlewyrchu'r dysgu hwn a symleiddio'r canllawiau, lle bo modd.

Gwnaethom ymgynghori'n ffurfiol ar ganllawiau cymhwystra diwygiedig rhwng 7 Chwefror a 28 Chwefror 2022. Gwnaethom ofyn y cwestiynau canlynol:

- A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'n newidiadau arfaethedig?
- A oes unrhyw beth mewn perthynas â chymhwystra ar gyfer y farchnad manwerthu busnes nad yw'r canllawiau wed'u diweddaru arfaethedig yn ei gwmpasu y credwch y byddai'n ddefnyddiol? Os felly, rhowch fanylion pam y byddai hyn yn ddefnyddiol.
- A yw'r senarios a ddarperir yn y canllawiau sydd wedi'u diweddaru yn ddigon cynhwysfawr? A oes unrhyw rai ar goll a fyddai'n ddefnyddiol, neu a oes rhai senarios nad oes eu hangen mwyach? Os felly, rhowch fanylion pam y credwch fod hyn yn wir.

Cawsom 14 o ymatebion i'n hymgynghoriad. Roedd wyth o'r rhain gan gyfanwerthwyr a dau gan fanwerthwyr. Cawsom hefyd ymatebion gan y Gwasanaethau Gweithredwr y Farchnad Cyfyngedig (**MOSL**), y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (**CCW**), y Cyngor Defnyddwyr Ynni Mawr (**MEUC**) a chymdeithas dai Peabody.

Isod rydym yn nodi'r sylwadau a gawsom a'n hymatebion i'r sylwadau hynny.

## 2.1 Sylwadau ar adrannau hyd a lled a phrif ddefnydd eiddo yn ein canllawiau

**Sylw**: Codwyd rhai pryderon bod cymhlethdodau ychwanegol gyda senarios cyflenwad a rennir (er enghraifft, sawl eiddo dibreswyl yn cael eu gwasanaethu drwy un pwynt cyflenwi) nad ydynt yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn ein canllawiau cymhwystra. Nododd ymatebwyr fod deiliadaeth luosog, cyflenwadau a rennir a phibellau/rhwydweithiau dosbarthu preifat yn faes cymhleth ac roeddent o'r farn y dylai Ofwat gynnal adolygiad ehangach o'r driniaeth briodol ar gyfer eiddo yn y senarios hyn.

**Ymateb**: Rydym yn cydnabod cymhlethdodau posibl eiddo yn y mathau hyn o senarios. Ein canllaw yw cynorthwyo rhanddeiliaid i benderfynu a yw eiddo penodol yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Bydd gan bob eiddo ei nodweddion unigryw ei hun a bydd angen penderfynu arnynt fesul achos. Ni all y canllawiau ymdrin â phob senario posibl. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn teimlo bod y canllawiau cymhwystra yn rhoi digon o arweiniad ar y mathau hyn o senarios ac, felly, nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i adlewyrchu'r sylw hwn.

**Sylw**: Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell i roi eglurder, yn enwedig o ran eiddo defnydd cymysg (gweler adrannau 2.3.2 a 3.4.2 ein canllawiau).

**Ymateb**: Rydym yn deall y gall penderfynu ar gymhwystra eiddo defnydd cymysg fod yn gymhleth. Rydym o'r farn bod ein canllawiau yn glir ynglŷn â'r camau yr ydym yn disgwyl i bartïon eu cymryd i ddatrys unrhyw faterion wrth benderfynu ar gymhwystra. Rydym wedi darparu rhestr anghyflawn o wybodaeth y bwriedir iddi helpu partïon i benderfynu ar brif ddefnydd eiddo defnydd cymysg ochr yn ochr â phroses i'w dilyn pan fo anghydfodau. Rydym hefyd yn deall y gall fod cymhlethdodau gyda eiddo defnydd cymysg pan fydd cymhwystra wedi'i bennu ond wedyn bod yr amgylchiadau ynglŷn â defnydd yr eiddo yn newid. Er enghraifft, os yw eiddo defnydd cymysg yn cynnwys siop a fflat ac yna bod y siop yn cau. Yn y senarios hyn, efallai y bydd angen ailasesu cymhwystra eiddo. Fel y nodir yn ein canllawiau, mater i fanwerthwyr yw sicrhau bod eiddo cwsmer busnes posibl yn gymwys i'r farchnad manwerthu busnes allu ei wasanaethu.

**Sylw**: Mae angen i'r adran ar benderfynu ar hyd a lled eiddo yn Lloegr yn y canllawiau (gweler adran 2.2) fod yn gliriach wrth nodi mai diben y diffiniadau yn y canllawiau yw asesu cymhwystra yn unig, yn hytrach na bod yn berthnasol i sut y codir taliadau.

**Ymateb**: Mae'r adran yn y canllawiau sy'n esbonio sut i benderfynu ar hyd a lled eiddo yn Lloegr yn cynnwys troednodyn i egluro ei fod yn berthnasol i'r asesiad o gymhwystra eiddo ar gyfer y farchnad manwerthu busnes yn unig. Rydym o'r farn bod hyn yn ddigon clir ac, oherwydd hynny, nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i adlewyrchu'r sylw hwn.

**Sylw**: Cawsom rai sylwadau ynglŷn â chytundebau bilio ar y cyd ac rydym yn cyfeirio atynt ar dudalen 6 o'r canllawiau. Yn gyntaf, awgrym i'w gwneud yn glir bod y cyfeiriad at gytundebau bilio ar y cyd yn gyfeiriad at gytundebau rhwng manwerthwyr a'u cwsmeriaid ac nid at gytundebau rhwng cyfanwerthwyr a manwerthwyr. Yn ail, sylw sy'n nodi bod tystiolaeth o gytundeb bilio ar y cyd yn cael ei herio'n aml a'i fod yn anodd ei orfodi os bydd anghydfod rhwng partïon yn ei gylch.

**Ymateb**: Rydym o'r farn bod ein canllawiau yn glir bod cytundeb bilio ar y cyd yn cyfeirio at gytundebau sy'n cynnwys cwsmeriaid yn hytrach na chytundebau rhwng manwerthwyr a chyfanwerthwyr. Er ein bod yn deall y gall fod achosion lle mae tystiolaeth o gytundeb bilio ar y cyd yn cael ei herio gan bartïon, nid ydym yn ystyried hwn yn fater lle mae angen i ni ddarparu canllawiau ychwanegol yn ein canllawiau cymhwystra. Os caiff tystiolaeth o gytundeb bilio ar y cyd ei herio, mater i'r cwsmer yw datrys hyn gyda'r manwerthwr a/neu'r cyfanwerthwr perthnasol.

**Sylw**: Cawsom nifer o sylwadau ar yr adran o'n canllawiau cymhwysedd ynglŷn â phenderfynu ar hyd a lled eiddo yn Lloegr (gweler adran 2.2.) a gofyn i ni ddarparu rhagor o ganllawiau ynglŷn â'r hyn a ddylai ddigwydd pan gyflenwir sawl eiddo dibreswyl drwy un pwynt cyflenwi ond nid oes tystiolaeth o gytundeb bilio ar y cyd.

Un sylw oedd y dylai'r canllawiau ddatgan nad yw senario o'r fath yn un eiddo ac, felly, dylid ystyried bod gan bob defnyddiwr dŵr o'r cyflenwad hwnnw eiddo ar wahân y mae ei gymhwystra wedi'i bennu ac sy'n cael ei filio ar wahân. Sylw arall oedd y dylai ein canllawiau ddweud hefyd bod disgwyl i gyfanwerthwyr weithio gyda manwerthwyr fesul achos i roi cyflenwadau ar wahân ar waith ar gost y cyfanwerthwr gan fynd i'r afael â threfniadau hanesyddol cyn belled ag y bo modd, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau cwsmeriaid.

Aeth un sylw ymhellach a dywedodd, lle mae aelwydydd o fewn cyflenwad a rennir, y dylai cyfanwerthwyr roi cyflenwad ar wahân ar waith i'r aelwydydd ar gost y cyfanwerthwr ac y dylai'r eiddo hyn sy'n aelwydydd gael eu datgofrestru a'u bilio'n uniongyrchol gan y cyfanwerthwr o ddyddiad y cytunwyd arno.

**Ymateb**: Rydym o'r farn bod ein canllawiau yn glir ar benderfynu hyd a lled eiddo a beth ddylai ddigwydd pan fydd nifer o eiddo dibreswyl yn cael eu cyflenwi drwy un pwynt cyflenwi. Rydym wedi nodi yn adran 2.2 o'n canllawiau:

"Yn gyffredinol, o dan y Cod Manwerthu Cyfanwerthu[3] (**WRC**), ), dylai pob eiddo dibreswyl unigol gael ei gyflenwi drwy ei bwynt cyflenwi ei hun[4]. Gall cwsmeriaid eiddo o'r fath ofyn am

[3] Mae'r WRC yn god statudol sy'n ffurfio'r cytundeb a wneir gan gyfanwerthwyr gyda'r manwerthwyr hynny y maent yn darparu gwasanaethau iddynt; mae'n nodi'r berthynas rhwng cyfanwerthwyr a manwerthwyr a sut y bydd y farchnad manwerthu busnes yn gweithredu.

[4] Diffinnir pwynt cyflenwi yn y WRC (atodlen 1, rhan 1) fel y pwynt lle darperir gwasanaethau dŵr neu garthffosiaeth. Bydd gan unrhyw eiddo cymwys sy'n derbyn gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ddau bwynt

gael eu bilio'n uniongyrchol am eu cyflenwad, neu i newid manwerthwr, ond byddant yn wynebu'r risg o dorri unrhyw drefniant bilio ar y cyd presennol (a all fod ar sawl ffurf, gan gynnwys cytundeb bilio ar y cyd hanesyddol neu gytundeb prydles). Os bydd cwsmeriaid yn gwneud cais i newid manwerthwr, a/neu i gael eu bilio'n uniongyrchol yn hytrach na thrwy drefniant bilio ar y cyd, gall y manwerthwr perthnasol ofyn i'r cyfanwerthwr gofrestru pwyntiau cyflenwi unigol a rhaid i'r cyfanwerthwr ystyried ceisiadau o'r fath yn unol â'r WRC. Pan fo unrhyw gymhlethdodau, rydym yn disgwyl i fanwerthwyr a chyfanwerthwyr weithio'n adeiladol ac ar y cyd i'w datrys , er mwyn dod o hyd i ateb amserol a phriodol i'r cwsmer."

Nid ydym o'r farn bod angen i'n canllawiau cymhwystra fynd ymhellach na hyn. Mater i gwsmeriaid, manwerthwyr a chyfanwerthwyr yw datrys unrhyw broblemau gyda chyflenwadau a rennir, yn unol â'r WRC. Gyda hyn mewn golwg, nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r canllawiau cymhwystra.

**Sylw**: Nid yw'r term 'rhwydwaith dosbarthu preifat' wedi'i ddiffinio.

**Ymateb**: Diffinnir y term 'rhwydwaith dosbarthu preifat' ar dudalen 6 y canllawiau cymhwyster.

**Sylw**: Byddai'n ddefnyddiol diffinio, neu roi rhai enghreifftiau o'r hyn a olygir gan ddata ychwanegol y gellid yn rhesymol ei ddefnyddio i nodi hyd a led yr eiddo (gweler adran 2.2 o'n canllawiau). Gallai ehangu ar y pwynt hwn fod yn fuddiol i bartïon masnachu o ran eu helpu i ddatrys achos cymhleth a rhoi eglurder ar ffynhonnell data ychwanegol.

**Ymateb**: Rydym o'r farn bod y math o ddata ychwanegol y gellid ei ddefnyddio i nodi hyd a lled eiddo yn debygol o fod yn debyg iawn i'r wybodaeth ychwanegol y byddwn yn cyfeirio ati i helpu i benderfynu ar brif ddefnydd eiddo. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi gwneud y cyswllt hwn yn glir yn ein canllawiau.

**Sylw**: Cafwyd un neu ddau o sylwadau am Ffigur 1 o'n canllawiau a'r wybodaeth a ddarperir gennym i helpu i asesu cymhwystra eiddo defnydd cymysg. Yn gyntaf, dylai'r canllawiau ei gwneud yn glir y dylai manwerthwyr ystyried yr holl eitemau gwybodaeth yn Ffigur 1 wrth asesu cymhwystra eiddo defnydd cymysg, gan gynnwys tystiolaeth a gyflwynir gan y cwsmer. Yn ail, byddai'n ddefnyddiol gwybod barn Ofwat ynglŷn ag a allai rhai eitemau gwybodaeth o bosibl fod â mwy o bwysau nag eraill yn y broses asesu. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol pe bai manwerthwr wedi ystyried yr holl eitemau, ond bod y prif ddefnydd yn dal yn aneglur.

**Ymateb**: Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i'n canllawiau egluro y dylid ystyried yr holl eitemau gwybodaeth yn Ffigur 1 wrth asesu cymhwystra eiddo defnydd cymysg. Rydym wedi diwygio'r canllawiau yn unol â hynny gan gynnwys ei gwneud yn glir y dylai'r rhestr o wybodaeth gynnwys tystiolaeth a gyflwynir gan y cwsmer. Er mwyn bod yn gyflawn, rydym

cyflenwi. Dim ond un pwynt cyflenwi fydd gan unrhyw eiddo cymwys sy'n derbyn naill ai wasanaethau dŵr neu garthffosiaeth.

hefyd wedi diweddaru'r rhestr i adlewyrchu ein bod o'r farn y dylai'r rhestr hon gynnwys tystiolaeth bosibl gan y cyfanwerthwr perthnasol hefyd.

Nid ydym o'r farn ei bod yn ymarferol gosod canllawiau ynglŷn ag a ddylai gwybodaeth benodol yn Ffigur 1 bwyso'n drymach mewn asesiad manwerthwr o gymhwystra. Dylid asesu pob eiddo fesul achos a bydd ganddynt eu nodweddion unigol ei hunain. Pan fo sefyllfaoedd lle mae'r holl wybodaeth wedi'i hystyried, a'r statws cymhwystra yn parhau i fod yn aneglur, yna mae proses anghydfod ar gyfer datrys materion o'r fath.

**Sylw**: Dylai'r canllawiau nodi'n glir, mewn senario lle mae eiddo defnydd cymysg gyda siop a fflat uwch ei phen, ond bod y siop wedi cau, y dylai prif ddefnydd de facto'r eiddo barhau i fod yn ddibreswyl a gall y cyfanwerthwr barhau i anfonebu'r manwerthwr a'r manwerthwr filio deiliad y fflat ar sail asesiad.

**Ymateb**: Rydym yn deall y pryderon a godwyd ond nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol diwygio'r canllawiau i adlewyrchu'r pwynt hwn. Rydym yn cydnabod y gall defnydd eiddo newid dros amser ac efallai y bydd adegau pan fydd yn rhesymol i fanwerthwr ailasesu cymhwystra eiddo ar gyfer y farchnad. Bydd gan bob eiddo ei nodweddion unigryw ei hun a bydd angen eu hasesu fesul achos. Fel y nodir yn ein canllawiau, mater i fanwerthwyr yw sicrhau bod eiddo cwsmer busnes posibl yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes er mwyn gallu ei wasanaethu.

**Sylw**: Mae angen i'r canllawiau gydnabod efallai na fydd y gwahanol fathau o nodi eiddo, i benderfynu a yw eiddo penodol yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes, yn rhoi ateb cyson neu ddiffiniol ac, heb ymweliad safle, bydd angen defnyddio rhywfaint o farn.

**Ymateb**: Rydym yn cytuno y gall fod adegau pan fydd cymhlethdodau penodol ychwanegol mewn perthynas ag eiddo nad yw ein canllawiau yn ymdrin â hwy yn benodol. Diben ein canllawiau yw helpu rhanddeiliaid i benderfynu a yw eiddo penodol yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Bydd gan bob eiddo ei nodweddion unigryw ei hun a bydd angen penderfynu arnynt fesul achos.

## 2.2 Sylwadau ar yr adran datrys anghydfodau yn ein canllawiau

**Sylw**: Yn yr adrannau datrys anghydfodau anffurfiol ein canllawiau (gweler adrannau 2.4.1 a 3.5.1) rydym yn cyfeirio at gyhoeddi cyfrifon ôl-ddyddiedig lle mae statws cymhwystra eiddo wedi newid. Gwnaethom nodi mai mater i'r partïon perthnasol yw cytuno ar ddyddiad rhesymol i ôl-ddyddio'r statws cymhwystra iddo, gan ystyried pryd y codwyd mater cymhwystra'r eiddo gyntaf. Cawsom un sylw y dylem ei gwneud yn glir yn ein canllawiau y gallai materion yn ymwneud ag ôl-ddyddio cyfrifon hefyd gael eu cyfeirio at Ofwat ar gyfer penderfyniad ffurfiol. Yn ogystal, nodwyd y gallai fod ffactorau eraill i'w hystyried wrth

benderfynu ar daliadau wedi'u hôl-ddyddio, y tu hwnt i'r adeg pan godwyd mater cymhwystra'r eiddo gyntaf, megis y berthynas â chyfyngiadau'r farchnad ar rediadau setliad heb eu cynllunio; y cyfyngiadau ôl-filio yn y Cod Ymarfer Diogelu Cwsmeriaid; a lle mae'r mater wedi'i brofi cyn agor y farchnad manwerthu busnes.

**Ymateb**: Rydym wedi diwygio ein canllawiau i adlewyrchu'r sylwadau hyn. Yn y man cyntaf, dylai partïon perthnasol geisio datrys rhyngddynt eu hunain unrhyw faterion yn ymwneud ag ôl-ddyddio cyfrif i adlewyrchu statws cymhwystra gwahanol ar gyfer yr eiddo. Pan nad yw partïon yn gallu datrys y mater yn uniongyrchol, gall cwsmer ofyn i CCW ystyried y mater, gyda'r bwriad o gyfryngu ateb. Os na fydd y cam hwnnw'n llwyddo gallai'r anghydfod gael ei gyfeirio at Ofwat i'w benderfynu'n ffurfiol. Rydym yn cytuno, wrth ystyried ôl-ddyddio cyfrifon, y gallai fod nifer o ffactorau i'w hystyried y tu hwnt i'r adeg pan godwyd mater cymhwystra'r eiddo gyntaf.

**Sylw**: Mae angen i eiriad y canllawiau ei gwneud yn glir, lle na ellir datrys problemau, mai dim ond drwy fod y cwsmer cysylltu â CCW y gellir cychwyn unrhyw gysylltiad gan CCW.

**Ymateb**: Rydym wedi diwygio'r canllawiau i adlewyrchu'r sylw hwn.

**Sylw**: Mewn perthynas ag adran 2.2 y canllawiau, mae angen rhagor o eglurder ynglŷn â sut y dylai partïon ddod i benderfyniad terfynol pan fo cwsmer sy'n cael ei gyflenwi drwy rwydwaith dosbarthu preifat yn dymuno dewis ei fanwerthwr ei hun, ac na cheir cytundeb cyffredin ar gymhwystra rhwng y cwsmer, y manwerthwr a'r cyfanwerthwr.

**Ymateb**: Rydym yn deall y gall cymhlethdodau godi o ran penderfynu ar hyd a lled yr eiddo ac yn nodi yn ein canllawiau y broses y dylid ei dilyn ar gyfer datrys anghydfodau rhwng partïon ar hyn. Rydym o'r farn bod hyn yn ddigon clir ac nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i adlewyrchu'r sylw hwn.

## 2.3

**Sylw**: Mae angen diweddaru'r canllawiau i adlewyrchu nad yw manwerthu sydd wedi'i gyfyngu i awdurdodiadau hunangyflenwi yn berthnasol yng Nghymru.

**Ymateb**: Rydym yn cytuno nad yw trwyddedau manwerthu sydd wedi'u cyfyngu i hunangyflenwi, sy'n awdurdodi deiliaid trwyddedau i gyflenwi eu safleoedd eu hunain a safleoedd pobl sy'n gysylltiedig â nhw, yn berthnasol yng Nghymru. O ganlyniad, rydym wedi diwygio'r canllawiau yn unol â hynny.

## 2.4 Sylwadau ar yr adran senarios yn ein canllawiau (gweler adran A1 y canllawiau)

**Sylw**: Codwyd rhai pryderon ynglŷn ag a yw'n gywir bod cyflenwadau dros dro i ddatblygwyr (**cyflenwadau adeiladu dros dro**) yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes (gweler senario A1.17 y canllawiau). Gwnaed sawl sylw na ddylai cyflenwadau adeiladu dros dro fod yn gymwys mwyach ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Y prif resymau a nodwyd am hyn oedd:

- Mae cyfanwerthwyr yn defnyddio gwahanol ddulliau o reoli cyflenwadau adeiladu dros dro.
- Mae rhai cyfanwerthwyr yn rheoli cyflenwadau adeiladu dros dro y tu allan i'r farchnad manwerthu busnes.
- Mae cyflenwadau adeiladu dros dro yn gymwys ar gyfer y farchnad yn arwain at oedi wrth gofrestru eiddo cartref.
- Mae effeithiau negyddol ar brofiadau cwsmeriaid o ganlyniad i gael eu rhoi yn y farchnad manwerthu busnes a'u tynnu allan ohoni.
- Gweithgareddau cofrestru a dadgofrestru costus a gwastraffus.

Awgrym arall a gyflwynwyd oedd mai'r prif ddefnydd a gynllunnir neu a fwriedir ar gyfer eiddo newydd ei gysylltu ddylai fod yr ysgogwr i benderfynu a yw'n gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Felly, ni ddylai eiddo y bwriedir ei ddefnyddio fel cartref domestig yn unig a chartrefi domestig sy'n cael eu hadnewyddu fod yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Fodd bynnag, gallai cartrefi arddangos a chyflenwadau sydd yn eu lle i wasanaethu safle datblygu yn ystod ei adeiladu, fod yn gymwys o hyd.

**Ymateb**: Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed am gyflenwadau adeiladu dros dro ac yn cydnabod efallai nad yw'r broses sydd ar waith ar gyfer cyflenwadau adeiladu dros dro yn gweithio mor effeithiol ag y dylai ar hyn o bryd ac er budd cwsmeriaid. Nid yw cyflenwadau adeiladu dros dro yn dod o fewn y diffiniad o eiddo preswyl yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 (**y Ddeddf**) lle cânt eu diffinio fel eiddo y mae gan berson gartref ynddo, neu mewn unrhyw ran ohono. Felly, mae deddfwriaeth bresennol yn pennu bod cyflenwadau adeiladu dros dro yn gymwys ar hyn o bryd ar gyfer y farchnad manwerthu busnes, gan alluogi datblygwyr i elwa o gael dewis yn eu manwerthwr.

Gyda'r uchod mewn golwg nid ydym yn cynnig, ar hyn o bryd, gwneud unrhyw newidiadau i'r canllawiau cymhwystra mewn perthynas â chyflenwadau adeiladu dros dro, gan eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol. Mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â sut mae cwmnïau dŵr yn trin cyflenwadau adeiladu dros dro yn ymarferol. Rydym yn annog y diwydiant i ystyried cyflwyno cynigion newid i wella'r prosesau gweithredol presennol ar gyfer ymdrin â chyflenwadau adeiladu dros dro er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon i gwsmeriaid a'r farchnad.

**Sylw**: Ar gyfer cwsmeriaid cartref, mae'r ffaith bod eiddo heb ddodrefn yn ffactor a ddefnyddir i helpu i benderfynu a yw eiddo yn wag. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod eiddo yn wag neu heb ddodrefn yn golygu nad yw'r cyflenwad yn cael ei ddefnyddio. Dylid ystyried diwygio'r canllawiau i amlygu nad yw hyn bob amser yn wir mewn perthynas â chwsmeriaid cartref.

**Ymateb**: Rydym yn deall y pwynt sy'n cael ei godi ond nid ydym yn ystyried bod angen i ni ddiwygio ein canllawiau. Mae'r senario eiddo gwag yn y canllawiau (gweler senario A1.19 o'n canllawiau) yn nodi efallai na fydd prif ddefnydd eiddo gwag yn syml a bod angen ystyried ffactorau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, hyd yr amser y mae eiddo wedi bod yn wag, a oes modd ei ddefnyddio fel cartref, y dreth gyngor/rhwymedigaeth ardrethi busnes ac a yw person yn rhestru'r eiddo fel ei breswylfa. Cyfeiriwn at ganllawiau Ofwat o 2006 (RD 02/06) sydd, er yn dweud ei bod yn rhesymol i gwmnïau beidio â chodi tâl ar berchnogion eiddo gwag, heb ddodrefn, mae hefyd yn dweud mai cyfrifoldeb cwmnïau yw pennu taliadau unigol a phenderfynu ar bwy i filio.

**Sylw**: Gwnaed sylw bod Ofwat yn newid ei safbwynt ynglŷn ag un o'r senarios - cymhwystra cymdeithasau tai (gweler senario A1.12). Y sylw oedd ein bod yn symud o fod cymdeithasau tai yn gymwys i'w cynnwys yn y farchnad manwerthu busnes os oes elfen ddibreswyl ddigon mawr ar y eiddo, i gymdeithasau tai ddim yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer y farchnad.

**Ymateb**: Nodwn y sylw a godwyd ac rydym wedi egluro yn ein canllawiau y gellid ystyried cymdeithasau tai yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes os oes elfen ddibreswyl ddigon mawr ar y eiddo.

**Sylw**: Lle mae'r canllawiau'n cyfeirio at 'eglwysi', byddai'n fwy priodol cyfeirio at 'fannau addoli'. Bydd hyn yn ei gwneud yn gliriach mai bwriad y canllawiau yw bod yn berthnasol i bob man addoli yn hytrach nag is-set yn unig.

**Ymateb**: Rydym yn cytuno ac wedi gwneud y newid a awgrymir i'n canllawiau.

**Sylw**: Dylai Ofwat roi rhagor o eglurder ynglŷn â'r senario ar neuaddau preswyl a llety prifysgolion. Yn benodol, egluro a ddylid ystyried bod gan lety myfyrwyr sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd ddomestig am ran helaeth o'r flwyddyn, a'r llety ddim yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall, brif ddefnydd fel cartref ac, felly, nad yw'n gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes.

**Ymateb**: Rydym yn ystyried y senario neuaddau preswyl a llety prifysgol yn ddigon clir yn ein canllawiau felly nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol. Pan ddefnyddir eiddo yn gyfan gwbl fel cartref, a lle gall myfyrwyr aros drwy'r flwyddyn, byddai'r eiddo yn cael ei ystyried yn gartref ac ni ddylai fod yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes. Lle na chaniateir i fyfyrwyr aros yn yr eiddo drwy'r flwyddyn, ni fyddai'r eiddo yn cael ei ystyried yn gartref a dylai fod yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes.

**Sylw**: Cawsom un sylw y dylid ychwanegu ffynhonnau dŵr at ein rhestr o senarios. Y sylw oedd y dylai'r landlord, mewn sefyllfaoedd o'r fath, fod yn feddiannydd neu, os yw ffynnon yn rhan o barc busnes, bod meddianwyr y parc busnes yn atebol ar y cyd ac yn unigol am yr SPID yn y farchnad manwerthu, os oes un yn bodoli, ac yn absenoldeb SPID, mae'r ffynnon yn safle bwlch y mae'r landlord neu'r deiliaid yn gyfrifol amdano.

**Ymateb**: Rydym yn cydnabod y sylw ond nid ydym wedi ychwanegu hyn at y rhestr o senarios. Rydym o'r farn y dylai pob eiddo gael ei asesu fesul achos a, lle mae ffynhonnau, rydym o'r farn y dylid ystyried cymhwystra'r eiddo lle mae'r ffynnon wedi'i lleoli gan ddefnyddio ein canllawiau i gynorthwyo'r broses hon.  Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol, ac yn anghyffredin, y byddai ffynnon yn ffurfio ei hadeilad ei hun.

## 2.5 Sylwadau cyffredinol ar ein canllawiau

**Sylw**: Gwnaeth cyfanwerthwr sylw ei fod o'r farn y gall un eiddo fod yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes at ddibenion manwerthu dŵr wyneb a gwasanaethau draenio priffyrdd, tra nad yw'n gymwys o ran manwerthu cyflenwad dŵr arall a/neu wasanaethau carthffosiaeth. Nododd fod ganddo nifer sylweddol o eiddo sydd ond yn cael eu gwasanaethu drwy'r farchnad manwerthu busnes ar gyfer dŵr wyneb a gwasanaethau draenio priffyrdd. O ganlyniad, mae'n awgrymu bod ein canllawiau'n cael eu diweddaru i adlewyrchu y gallai fod angen cynnal dau asesiad ar wahân o gymhwystra eiddo - un ar gyfer gwasanaethau dŵr wyneb a draenio priffyrdd ac un ar gyfer y gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth sy'n weddill.

**Ymateb**: Rydym yn deall y pwynt sy'n cael ei godi gan y cyfanwerthwr, ond nid ydym yn ystyried mai dyma'r dehongliad cywir o'r ddeddfwriaeth berthnasol na'n canllawiau. Dim ond ar gyfer gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth y gall manwerthwr fod yn fanwerthwr ac mae'r Ddeddf yn diffinio gwasanaethau carthffosiaeth fel gwaredu carthffosiaeth ac unrhyw wasanaethau eraill y mae'n ofynnol i ymgymerwr carthffosiaeth eu darparu at ddiben cyflawni ei swyddogaethau. Nid ydym yn ystyried y gall manwerthwr ddarparu gwasanaethau dŵr wyneb a draenio priffyrdd yn unig.

Er nad yw ein canllawiau diwygiedig symlach yn cynnwys y testun hwn, rydym yn cydnabod bod ein canllawiau atodol blaenorol wedi dweud y gallai fod sefyllfaoedd lle gallai un eiddo gael ei ystyried yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes ar gyfer gwasanaethau dŵr ond yn anghymwys ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth. Roedd hyn yn cyfeirio at senario lle gallai eiddo gael ei gyflenwi gan ddarparwyr dŵr a charthffosiaeth gwahanol, gyda phob un yn asesu cymhwystra'r eiddo ar wahân. Gwnaethom nodi y gallai fod achosion lle mae systemau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth yr eiddo yn gweithredu'n wahanol ar gyfer elfennau preswyl a dibreswyl yr eiddo. Roedd y canllawiau'n nodi ein bod felly'n derbyn y gallai fod yn bosibl i un adeilad gael ei ystyried yn gartref mewn perthynas ag un gwasanaeth ac yn ddibreswyl mewn perthynas â'r gwasanaeth arall (hynny yw ar gyfer gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth). Nid ydym yn credu bod hyn yn ymestyn i is-setiau pellach o

wasanaethau megis dŵr wyneb a draenio priffyrdd sydd, fel y nodir uchod, yn rhan o wasanaethau carthffosiaeth. Roedd ein canllawiau blaenorol yn nodi'n glir ein bod yn annog manwerthwyr i fabwysiadu dull cyson o gymhwyso eiddo lle bo modd er mwyn hwyluso dealltwriaeth cwsmeriaid.

Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth, nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'n canllawiau mewn perthynas â'r mater hwn.

**Sylw**: Er mwyn osgoi gwrthdaro â diffiniadau cyfranogwyr y farchnad eu hunain o eiddo, rydym yn awgrymu y dylid newid 'un eiddo' i 'un set o eiddo'.

**Ymateb**: Rydym o'r farn bod y defnydd o 'un eiddo' yn ddigon clir ac felly nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach.

**Sylw**: Mae nifer o newidiadau sylfaenol y mae angen eu gwneud i'r farchnad manwerthu busnes i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid reoli dŵr yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod gan fesuryddion dŵr domestig ddynodwyr pwynt cyflenwi (SPIDS[5]).
- Cronfa ddata mesuryddion dŵr cenedlaethol.
- Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau cyfanwerthwyr a manwerthwyr.
- Dylai unrhyw sefydliad sydd â mwy na 10 cyflenwad gyda'r un cwmni dŵr gael rheolwr cyfrif neu gael caniatâd i gydgrynhoi ei filiau.
- Dylid caniatáu i sefydliadau gydgrynhoi eu portffolio o dan un darparwr.

**Ymateb**: Rydym yn cydnabod y pwyntiau sy'n cael eu gwneud ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu rheoli dŵr yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r pwyntiau a godwyd y tu allan i gwmpas adolygu'r canllawiau cymhwystra ond maent wedi'u rhannu â thîm Ofwat sy'n gweithio ar y farchnad manwerthu busnes, fel adborth a mewnwelediad i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

**Sylw**: Nid yw'r canllawiau'n ymdrin ag eiddo sy'n trosglwyddo o fusnes i ddomestig nac i'r gwrthwyneb a beth ddylai disgwyliadau cwsmeriaid fod yn hyn o beth.

**Ymateb**: Bwriad y canllawiau cymhwystra yw helpu i benderfynu  a yw cwsmeriaid busnes yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i newid y manwerthwr dŵr a charthffosiaeth sy'n gwasanaethu eu heiddo. Fel y nodir uchod, rydym yn cydnabod y gall defnydd eiddo newid dros amser ac efallai y bydd adegau pan fydd yn rhesymol i fanwerthwr ailasesu cymhwystra eiddo ar gyfer y farchnad. Nid yw'n ymdrin â sut y bydd cwsmeriaid yn symud yn ymarferol o'r

[5] Diffinnir dynodwr pwynt cyflenwi yn y Cod Manwerthu Cyfanwerthu (atodlen 1, rhan 1) fel dynodwr unigryw a ddyrennir i bob pwynt cyflenwi gan weithredwr y farchnad (MOSL).

farchnad manwerthu busnes i'r farchnad breswyl neu i'r gwrthwyneb. Mae trefniadau presennol ar waith yn y farchnad manwerthu busnes sy'n cwmpasu'r trafodion hyn.

**Sylw**: Byddai'n fuddiol caniatáu i gwsmeriaid busnes sydd â chanran lai o eiddo nad sy'n gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes (er enghraifft llety myfyrwyr, safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn (**MOD**), prifysgolion a cholegau) allu cael eu portffolio llawn o eiddo fel rhan o'r farchnad manwerthu busnes.

**Ymateb**: Diffinnir cymhwystra eiddo ar gyfer y farchnad manwerthu busnes gan ddeddfwriaeth. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir na all manwerthwyr wasanaethu eiddo cartref. Gyda hyn mewn golwg, nid ydym wedi gwneud diwygiadau i'r canllawiau cymhwystra i adlewyrchu'r sylw hwn.

**Sylw:** Cafwyd sawl sylw ar dudalen 4 o'n canllawiau sy'n nodi, 'ym mhob achos, ac ar gyfer pob agwedd ar gymhwystra, y manwerthwr yn hytrach na'r cyfanwerthwr sy'n gorfod sicrhau bod eiddo cwsmer busnes arfaethedig yn gymwys ar gyfer y farchnad manwerthu busnes.' Dywedodd ymatebwyr nad yw hyn yn adlewyrchu'n gywir bod gan gyfanwerthwyr hefyd gyfrifoldeb am, ymhlith pethau eraill, hwyluso datgofrestriad eiddo anghymwys o'r farchnad manwerthu busnes ac, weithiau, penderfynu a ddylai safleoedd fod i mewn neu allan o'r farchnad. Teimlai'r ymatebwyr y dylai ein canllawiau wneud hynny'n glir ac, yn benodol, beidio â diystyru telerau gweithredol y WRC.

**Ymateb**: Rydym o'r farn bod y llinell ar dudalen 4 o'n canllawiau, y cyfeirir ati yn y sylw uchod, yn glir ac yn gywir ynglŷn â chyfrifoldebau manwerthwyr. Rydym hefyd yn dweud ar dudalen 4:

"Oni bai ei fod yn gwneud hynny yn unol â thrwydded briodol, fel y nodir yn y Ddeddf, mae'n drosedd i berson (er enghraifft, manwerthwr) ddefnyddio system gyflenwi cyfanwerthwr at ddiben cyflenwi dŵr i unrhyw eiddo cwsmer neu i gyflwyno dŵr i system gyflenwi cyflenwad cyfanwerthwr."

Rydym yn cydnabod bod gan gyfanwerthwyr hefyd gyfrifoldebau penodol o dan godau'r farchnad mewn perthynas â chofrestru eiddo cymwys, ac nid ydym o'r farn bod ein canllawiau yn gwrth-ddweud hyn.

**Sylw**: Dylai'r canllawiau gynnwys sefyllfaoedd lle mae cwsmer yn cael budd o eithriad busnes bach rhag ardrethi busnes a'i fod mewn eiddo defnydd cymysg. O dan yr amgylchiadau hyn, gallai'r ardrethi busnes a delir fod yn llai na'r dreth gyngor, ond byddai'r ardrethi busnes heb ddisgownt yn uwch.

**Ymateb**: Rydym yn deall y pwynt sy'n cael ei wneud ac yn ystyried y gallai hyn fod yn ffactor wrth benderfynu a yw eiddo yn gymwys ar gyfer y farchnad. Fodd bynnag, nid ydym yn

ystyried bod angen i ni wneud unrhyw ddiwygiadau i'r canllawiau i egluro hyn gan y bydd gan bob eiddo ei nodweddion unigryw ei hun a bydd angen penderfynu arnynt fesul achos.

**Sylw**: Mae anghysondeb yn sut mae cwmnïau dŵr yn dehongli'r canllawiau presennol. Dylai'r canllawiau, felly, fod mor eglur â phosibl, gan adael cyn lleied o le i gwmnïau fabwysiadu dulliau gwahanol o ymdrin â eiddo cwsmeriaid tebyg.

**Ymateb**: Rydym yn gwerthfawrogi y gallai gwahanol randdeiliaid ddehongli'r canllawiau'n wahanol ac rydym wedi diweddaru ein canllawiau, lle credwn fod angen mwy o eglurder. Fodd bynnag, mae terfyn i lefel y penodolrwydd y gall ein canllawiau ei gynnwys yn rhesymol gan y bydd gan bob eiddo ei nodweddion unigryw ei hun a bydd angen penderfynu arnynt fesul achos.

**Sylw**: Cawsom un sylw yn ymwneud â phroses y farchnad manwerthu busnes ar gyfer nodi safleoedd bwlch. Safleoedd yw'r rhain lle mae eiddo cymwys sy'n derbyn gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ond lle nad oes pwynt(iau) cyflenwi, neu ddigon o bwyntiau cyflenwi, wedi'u cofrestru ar gofrestr pwyntiau cyflenwi'r farchnad. Dywedodd yr ymatebydd fod angen i'n canllawiau gynnwys esboniad ychwanegol ynglŷn â pham mae'r broses safle bwlch yn addas ac yn benodol sut y gellir ei defnyddio a beth sy'n digwydd i ddatrys unrhyw anghydfod rhwng partïon ynglŷn â safle bwlch.

**Ymateb**: Mae'r canllawiau cymhwystra yn darparu canllawiau ar gyfer penderfynu a yw cwsmeriaid busnes yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i newid y manwerthwr dŵr a charthffosiaeth sy'n gwasanaethu eu heiddo. Mae trefniadau presennol ar waith yn y farchnad manwerthu busnes sy'n darparu canllawiau a phrosesau ar gyfer nodi safleoedd bwlch a datrys unrhyw faterion cysylltiedig.

**Sylw**: Cawsom nifer o sylwadau ar faterion yn ymwneud â darllen mesuryddion. Yn gyntaf, dylai'r canllawiau ddweud y dylai cyfanwerthwyr osod is-fesuryddion ar gyfer cwsmeriaid busnes ar gyfer eiddo defnydd cymysg lle mae darllen mesurydd yn broblem oherwydd na ellir mynd at y mesuryddion. Yn ail, lle nad yw mesuryddion wedi gallu cael eu darllen ers agor y farchnad, dylai cyfanwerthwyr dynnu'r rhain allan o'r farchnad a'u sefydlu eto gyda threfniadau priodol ar gyfer y farchnad.

**Ymateb**: Nid ydym o'r farn bod angen i ni ddarparu unrhyw ganllawiau ychwanegol ar gymhwystra eiddo mewn ymateb i'r sylwadau hyn. Rydym yn nodi, fodd bynnag, bod MOSL ar hyn o bryd yn arwain Adolygiad Mesuryddion Strategol, yr ydym yn ei gefnogi, ac un o'i brif amcanion yw cynyddu ansawdd data defnydd yn y farchnad, ac felly gwella gallu partïon masnachu i ddarparu biliau amserol a chywir i gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, fynd i'r afael â nifer y mesuryddion sydd heb eu darllen ers amser hir yn y farchnad.

# 3. Casgliad

Fel y nodir yn ein dogfen ymgynghori, mae’n ofynnol yn ôl y Ddeddf i ni ymgynghori â’r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog Cymru ar rai adrannau o’n canllawiau. Mae hyn yn cynnwys yr adrannau ar hyd a lled eiddo a’r gofyniad trothwy. Ers hynny rydym wedi derbyn y gymeradwyaeth berthnasol ar yr adrannau hyn.

Gan gynnwys yr ymatebion a gawsom i’n hymgynghoriad, a’r gymeradwyaeth a gawsom gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog Cymru, rydym bellach wedi cyhoeddi ein canllawiau cymhwystra diwygiedig terfynol. Gellir dod o hyd iddynt ar ein gwefan.

**Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.**

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/ version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL